Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 13eg Medi yn Oriel y Neuadd Ddinesig, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Roy Davies, Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Ros Bellamy, Cyng Edward Thomas

Cof 53 / Medi / 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E /13850 Adeilad rhestredig. Newidiadau arfaethedig i'r simnai a goleuadau yn y to. 9, Bryn Sior
Dim gwrthwynebiadau

E /13994 Dymchwel garej bresennol er mwyn adeiladu tŷ tair ystafell wely (ail gyflwyno E/12911 tynnwyd yn ôl ar 13.6.06. Cefn 11, Adeiladau'r Banc.
Testun ymweliad safle ar ddydd Sadwrn, Medi 16eg. Hysbyswyd y partïon.

E /14114 Ystafell wydr ac estyniad arfaethedig, Yr Hydd Gwyn, Heol Caerfyrddin
Dim gwrthwynebiad

E/14261 Adeiladu anheddle tri llawr ar safle adeilad sydd wedi'i ddymchwel 27, Stryd y Bont.
Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod priffyrdd yn hapus gyda llif y traffig.

Cof 54 / Medi /06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio
Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan y Cyngor Sir:

E/13429 Garej unigol ar wahân yn Llwynhelig Lodge, Heol Caerfyrddin

E/13359 Dymchwel tŷ sydd wedi'i ddifrodi gan dân ac adeiladu anheddle yn ei le yn Penrock House, Heol Caerfyrddin.

E/13369 Adeiladu ffenestr bae newydd ar lawr gwaelod ym mlaen yr eiddo yn 34, Heol Newydd

E/13534 Ailosod ffenestr siop UPVC a drws pren ym mhopty 'Knead the Dough Bakery'.

Gwrthodwyd y ceisiadau canlynol gan y Cyngor Sir.

E/13112 Newid defnydd yn faes parcio ar dir oddi ar Adeiladau'r Banc (tu cefn Gwesty'r Cawdor)

E/13266 Datblygiad preswyl arfaethedig ar safle wrth ymyl Teras Tomos.

E/13268 Datblygiad preswyl ar safle sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel garej ar dir ym mhen Heol Tomos.

E/13368 Cais amlinellol ar gyfer 2 anheddle (lefel mynediad) (ailgyflwyno E/12591) Tir wrth ymyl Red Cottages, Heol Caerfyrddin.

Cof 55 / Medi / 06 Cynllunio a Dynnwyd yn ôl

E/13203 Newid defnydd: anheddle i fod yn ddeintyddfa yn Fernhill, 25, Heol Newydd

Cof 56 / Medi / 06 Cludiant a Phriffyrdd

1. Adeiladau'r Banc. Mynegwyd pryder dros faterion a godwyd wrth wrthod caniatâd Cynllunio ar gyfer parcio yng Ngwesty'r Cawdor Hotel. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid trefnu cyfarfod safle rhwng yr Asiantaeth Cefnffyrdd, Trevor Sage o CSC, Y Swyddog Cynllunio, Yr Heddlu, CS Ieuan Jones, AM Rhodri Glyn Thomas a chynrychiolwyr o Westy'r Cawdor. Cynhelir hyn naill ai ar y 12fed neu 13eg o Hydref.
2. Rhybudd o Gau Ffordd ar Fedi'r 18fed. Er gwaethaf yr ymateb sydd eisoes wedi'i anfon i Adran Briffyrdd CSC, roedd yr aelodau yn anhapus iawn gyda'r trefniadau. Cytunwyd y byddai'r Cyng Roy Davies yn anfon datganiad i'r wasg er mwyn i drigolion lleol fod yn ymwybodol o wrthwynebiadau'r Cyngor.

Cof 57 / Medi / 06 Adroddiad ar Lwybrau Troed

1. Rhoddodd Mr Des Davies adroddiad manwl ar gyflwr y llwybrau troed. Mae'r llwybr troed o dan Dafarn yr Hydd Gwyn a llwybr troed Nant y Rhibo wedi'u cynnwys yn y llwybrau sydd i'w cynnal a'u cadw yn y dyfodol. Mae Caroline Ferguson o CSC yn barod i'w thîm glirio'r llwybrau cyn i'r Cyngor eu mabwysiadu.
2. Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin. Manylion o gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Awst. Ni roddwyd gwybod i'r Cyngor tan ddeuddydd wedi'r digwyddiad.

Cof 58 / Medi / 06 Gohebiaeth

1. CSC – Parthed gwaith sydd i'w wneud er mwyn syrthio coed ym Mharc Dinefwr. Nodwyd.
2. Y Gymdeithas Gymunedol. Copïau o lythyron a anfonwyd i CSC yn gofyn am osod tap dŵr yn y maes parcio, yn ogystal â chyflenwad dŵr er mwyn dyfrhau'r basgedi crog.
3. Y Gymdeithas Gymunedol – copi o lythyr a anfonwyd i CSC yn cwyno am orfod talu am barcio.
4. Mrs Needham- yn gofyn am ganiatâd i osod blychau i blannu ynddynt ar hyd y wal wrth ymyl ei siop. Cytunwyd y dylai'r Swyddog Technegol gysylltu â hi.
5 Mr John Smallwood yn gofyn am fanylion rheoliadau claddu – cyfeirio at CSC

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm.